

DOLEN Y TAB 87

31 Rhagfyr 2021 – 1 Ionawr 2022

Dydd Sul 2 Ionawr

Oedfa rithiol yng ngofal Geraint Rees.
[Rhagor o fanylion i ddilyn ar *Facebook*]

YR OEDFAON NESAF

Mae'n bur debyg mai yn rhithiol y cynhelir ein hoedfaon am rai wythnosau ar ddechrau'r flwyddyn newydd, ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa'n wythnosol yn y gobaith y medrwn ailagor drysau'r Tabernacl yn fuan.

Ionawr

- 9 Oedfa yng ngofal Eleri Jones a'r Parchedig Aled Edwards
- 16 Oedfa yng ngofal Lowri a Dafydd Roberts a Helen Prosser
- 23 Y Parchedig Gethin Rhys
- 30 Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys ac eraill

Chwefror

- 6 Y Parchedig Dyfrig Rees

Hefyd ddydd Sul 2 Ionawr

12:00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa dechrau'r flwyddyn dan arweiniad Sian Elin Thomas, Castell Newydd Emlyn.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Ryland Teifi fydd yn ein tywys ni drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres hyd yma.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Brysiwch Wella

Wrth i ni baratoi rhifyn olaf *Dolen y Tab* yn 2021, mae adroddiadau'n ein cyrraedd bod nifer o aelodau'r Tabernacl wedi eu taro'n wael gyda Covid-19. Oherwydd fod yr amrywiolyn Omicron yn lledaenu fel tân gwyllt drwy'r gymuned mae'n amhosib enwi pawb sy'n ddiodef, ond rydym am ddymuno gwellhad buan i bob un ohonynt. Y newyddion da yw bod sawl un oedd wedi dal yr aflwydd cyn gwyliau'r Nadolig bellach wedi gwella'n llwyr.

Cau Drysau'r Capel Unwaith Eto

Ergyd drom oedd clywed Mark Drakeford yn cyhoeddi ar drothwy'r Nadolig y byddai Cymru'n dychwelyd i Lefel Rhybudd 2 ar Wyl San Steffan yn sgil bygythiad tebygol yr amrywiolyn Omicron. Mae gennym le i ddiolch am ddoethineb ein gwleidyddion yn y Bae sydd wedi gwrandao ar y dystiolaeth wyddonol a chyflwyno rhai mesurau i geisio ffrwyno'r pandemig. Yn anochel, roedd symud o Lefel Rhybudd 0 i Lefel Rhybudd 2 yn peri problem i ni yn y Tabernacl gan ei fod yn anymarferol i ni gynnal ein hoedfaon yn y capel am y tro. Nid yw'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd modd i ni ailagor am rai wythnosau, ond mae'r rhagolygon yn obeithiol y caiff y cyfyngiadau hyn eu llacio o fewn wythnosau y tro hwn, yn hytrach na misoedd. Gyda hyn mewn golwg, fe fyddwn yn adolygu'r sefyllfa'n wythnosol. Yn y cyfamser, rydym yn ddiolchgar iawn i Geraint Rees am drefnu oedfa rithiol ar fyr rybudd y Sul yma a hefyd am aildrefnu'r oedfaon rhithiol dros yr wythnosau nesaf. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad cyson â phawb gydag unrhyw newyddion am ailagor.

Prysurdeb Nadoligaidd

Mae'n bur amheus a fu unrhyw griw o bobl ifanc ledled Cymru mor ddiwyd â'r Twmiaid dros yr wythnosau'n arwain at y Nadolig. Uchafbwynt y gweithgareddau hyn, heb amheuaeth, oedd y gwasanaeth Nadolig hyfryd o gyfoes a bywiog fore Sul 19 Rhagfyr. Mor braf i'r gynulleidfa niferus oedd cael mwynhau gwrandao unwaith yn rhagor ar dalentau ieuenctid y capel yn gosod naws briodol i'r wyl drwy gyfrwng cerddi, caneuon a sgets.

Rhaid troi'r cloc yn ôl i ddiwedd Tachwedd er mwyn gwerthfawrogi'n llawn holl baratoadau'r Twmiaid, dan arweiniad ysbrydoledig Eleri Mai, i osod stamp unigryw ar ddathliadau Nadolig y Tabernacl. Syniad campus oedd cynllunio calendr adfent rhithiol gyda neges ddyddiol bwrpasol gan un o'r aelodau ar dudalen *Facebook* y capel i'n hannog i fod yn garedig tra ar yr un pryd yn rhoi gwên ar wyneb pawb!

Her arall yn ystod y cyfnod hwn oedd creu llusernau a chymryd rhan amlwg iawn yn yr orymdaith drwy bentref Efail Isaf ddiwedd pnawn Sul 12 Rhagfyr, ond cyn hynny buont yn creu cynnyrch ar gyfer eu stondin hynod o lwyddiannus yn Ffair Nadolig y Neuadd.

Ar ddiwedd y Gwasanaeth Nadolig, diolchodd Eleri Mai i'r bobl ifanc am eu holl waith a'u brwdfrydedd dros y misoedd diwethaf. Talwyd diolch i'r bobl ifanc ac i Eleri Mai gan Nia Williams ar ran y Bwrdd.

Blwyddyn Newydd Dda



PIGION O'R WASG

'Ffydd heb weithredoedd, marw yw'

Pan gyhoeddwyd y newyddion trist am farwolaeth Desmond Tutu, Cyn-Archegob Cape Town, ac enillydd Gwobr Nobel dros Heddwch, ar Wyl San Steffan, fe gollwyd un o'r dylanwadau mwyaf ysbrydoledig er daioni a welodd y byd dros yr hanner can mlynedd ddiwethaf.

Mae'n siŵr y caiff ei gofio'n bennaf yn llyfrau hanes y dyfodol am ei ymgyrchu di-ildio dros gyfnod o ddegawdau yn gwrthwynebu'r



gyfundrefn apartheid yn Ne Affrica. Ond, fel y gwelwyd yn y teyrngedau iddo a ymddangosodd ar y cyfryngau torfol yn dilyn ei farwolaeth, bu hefyd yn barod i feirniadu'n gyhoeddus yr arweinwyr gwleidyddol y tu hwnt i Dde Affrica oedd yn caniatáu i'w dinasyddion ddioddef camdriniaeth neu annhegwch enbyd ar sail lliw eu croen neu eu hymlyniad crefyddol.

I lawer, ei wên a'i chwerthiniad heintus a'i gwnaeth yn ffigur mor ddeniadol a phoblogaidd, ond roedd hyn yn cuddio ei brif rinweddau – sef ei argyhoeddiad Cristnogol cryf, ei ddeallusrwydd, a'i ddewrder wrth frwydro dros gyfiawnder yn erbyn sefydliad gwrthnysig a chreulon. Roedd ganddo'r gallu hefyd i ysbrydoli a throsglwyddo neges o obaith, waeth pa mor anobeithiol oedd yr amgylchiadau ar y pryd. Honnai mai gan ei dad y dysgodd un o'r gwersi pwysicaf i'w gynorthwyo wrth fynnu cyfiawnder, sef *'peidiwch â chodi'ch llais; ond gwellwch ein dadleuon.'*

Yn y rhifyn cyfredol o *Agora* (Tachwedd/Rhagfyr), e-gyfnodolyn dau-fisol *Cristnogaeth21*, ceir adroddiad cynhwysfawr gan Emlyn Davies o'r teyrngedau niferus a luniwyd am Desmond Tutu yn y dyddiau yn dilyn ei farwolaeth. Mae'n werth ei ddarllen gan iddynt ddangos Tutu fel arweinydd sydd wedi ysbrydoli pawb sy'n credu bod dulliau di-drais yn fwy effeithiol dros ddatrys anghydfod rhwng pobloedd na rhyfel. (gweler <https://crisnogaeth21.cymru/agora-2/agora-48-mis-tachwedd-rhagfyr-2021/>). Mae adroddiad Emlyn yn crynhoi sylwadau a ymddangosodd yn y wasg Brydeinig ac ar wefan newyddion y BBC, ynghyd â theyrngedau hael gan y cyn-Arlywydd Barack Obama a rhai o arweinwyr Cyngor Eglwysy'r Byd. Ond efallai mai'r deyrnged sy'n crisialu cyfrinach Tutu orau oedd sylwadau treiddgar Cyril Ramaphosa, Arlywydd presennol De Affrica, a ddisgrifiodd Desmond Tutu fel *'arweinydd o egwyddor a oedd yn ymgorfforiad o'r gwirionedd Beiblaidd bod ffydd heb weithredoedd yn farw.'*

Ffrydio Oedfaon

Fel y gwyddoch, sefydlodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr weithgor bychan i asesu anghenion technegol y Tabernacl dros y blynyddoedd nesaf. Yn ei gyfarfod cyntaf, penderfynodd y gweithgor wahodd Rhodri Darcy, Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i roi cyflwyniad i ni er mwyn ein goleuo ymhellach ar oblygiadau technegol ffrydio ein hoedfaon. Er mai'r agweddau technegol fydd prif ffocws ei sgwrs rithiol, bydd hefyd yn gyfle i'w holi am agweddau eraill megis costau prynu offer pwrpasol.

Cytunwyd hefyd i estyn croeso cynnes i unrhyw aelod o'r Tabernacl sy'n awyddus i ddysgu rhagor am y camau y bydd angen eu dilyn os am fwrw ymlaen i sefydlu eglwys hybrid. Cynhelir cyflwyniad Rhodri yn rithiol dros Zoom am 7 o'r gloch nos Fawrth 4^{dd} Ionawr.

Cysylltwch â gehpengwern@yahoo.co.uk i dderbyn manylion y ddolen Zoom i'ch galluogi i ymuno yn y cwrdd.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 11 Ionawr. Os oes gennych unrhyw fater i'w godi, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws, ar gehpengwern@yahoo.co.uk, 01443 225205 neu neges destun i 07710 237327 erbyn nos Lun 10 Ionawr fan bellaf.



Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk